



2024 Manifesto

For an era of delivery and growth



“We are not building enough renewable energy projects to meet Wales’ growing demand for electricity. We urge the next UK Government to establish a **collaborative four nations taskforce**, in partnership with the Welsh Government and our industry, to speed up the transition to renewables across the UK.

Over the next decade, Wales needs to quadruple its wind power capacity—from both onshore and offshore sources. A clean energy future will safeguard our energy security, provide lower-cost electricity to ease the cost of living for households, boost the competitiveness of Welsh businesses and supply chains, and support thousands of jobs nationwide.

At this critical juncture in a competitive global market, we need a government ready to seize this opportunity for Wales.”



Jessica Hooper
Director, RenewableUK Cymru

Energy consumption is growing at a faster rate than renewable energy generation, and the need for clean electricity will rapidly increase in the next decade as we seek to heat our homes, power our vehicles, and clean up our industries. With electricity usage expected to more than double by 2050, it is crucial to develop all forms of renewable generation to meet this rising need. The renewable energy opportunity is vast and can be harnessed across all regions and nations, offering significant benefits such as:

- Low-cost energy for bill payers
- Jobs and green economic growth
- Community benefit schemes
- Funding for environmental programmes
- A pathway to decarbonise our heavy industry
- Security of generating our own energy

Voters want the next UK Government to invest in clean energy to help address rising household costs.

Polling conducted by Opinium showed **nine out of ten people in Wales believe renewable energy should be a key focus for the next government.** Between 65% to 79% of those surveyed support energy generation from renewable sources, such as onshore wind, offshore wind, tidal, hydro, and solar. Most people (62%) support the construction of new electricity grid infrastructure to deliver a faster roll out of low-cost renewable energy, with only 6% opposed. This support increases once the public are assured that it will provide funding for the local community and is part of a national programme of upgrades to support low-cost clean energy investment.

There's also evidence of a disconnect between the public and local politicians on new renewable energy developments. A quarter of the Welsh public (25%) believe MPs underestimate the support for onshore wind, and 63% would like their local MP to advocate for more renewable energy investment. And four times as many people would have a more favourable view of a political party which campaigned on a promise to increase investment in onshore wind than would have a less favourable view (48% more favourable vs 12% who would be less favourable).


RenewableUK Cymru are calling on the Welsh Government to adopt **technology specific** targets to incentivise their own ambition to meet 100% of electricity demand from renewable sources by 2035. Only a quarter of all energy generated in Wales today comes from renewable sources. And evidence points to a planning system that is stagnating rather than ramping up to meet an accelerated demand.

In 2022, no projects were connected to the grid and only 6KW of wind energy was consented in Wales. This is micro-scale, equivalent to what would be required to power a single household. The constraints of poor grid connectivity and a sluggish and under-resourced planning system have hampered progress and deterred developers from pursuing the ambitious wind energy projects Wales so desperately needs to succeed. We need a much bolder, much faster delivery plan.

We have identified almost 8GWs of renewable energy projects in the Welsh pipeline. We estimate this projected capacity should be enough to meet the Welsh Government's 2035 target if we focus on delivery and overcome the three strategic barriers standing in the way: our poor grid network, stretched planning & consenting system, and lack of port and supply chain readiness. Certain powers, e.g. grid infrastructure and major economic investment, sit with the UK

Government, while others, such as planning and skills development, are devolved to the Welsh Government. For this reason, it has never been more important for the UK government and the Welsh government to work in unison to unlock these barriers and maximise the socio-economic benefits across Wales.

It will not be easy. There is an enormous distance to cover to **quadruple Wales' renewable electricity generation** in just over 10 years. The pipeline is mostly in the initial planning stage, but with prompt action and necessary infrastructure, Wales has a remarkable opportunity to deploy various renewable energy technologies.



Source: RenewableUK Energy Pulse database

Our asks of the next UK Government to ensure Wales's contribution to the UK's Net Zero aspiration can be realised:



1. Create a **collaborative four-nations taskforce** to address strategic issues and accelerate renewable energy deployment across the UK.
2. **Support our ask for the Welsh Government to set technology specific deployment targets and a clear delivery action plan** to meet their target for 100% of electricity demand to be met by renewable sources by 2035 and net zero by 2050.
3. Ensure clear requirements and alignment where **consenting and planning** have intergovernmental or cross-border interactions, including interfacing with the Infrastructure (Wales) Bill. With the sizeable number of potential energy projects on the horizon, the need for sufficiently resourced consenting bodies and clear policy for decision-making is more critical than ever.
4. Encourage the prioritisation of a new North to South Wales transmission grid route to unlock **anticipatory grid investment** in Wales. Bring forward strategic grid solutions for the Celtic Sea that go beyond the current development pipeline to enable the UK to fully realise the Floating Offshore wind potential in Welsh waters.
5. Recognise the **Welsh Net Zero sector skills agenda** within UK level skills development work – a collaborative approach is essential to anchor jobs. The workforce is mobile, which represents opportunities and threats across the UK.
6. **Direct large-scale financial intervention through the 2020s and early 2030s** to allow ports in Wales to invest in upgrades for offshore wind deployment and unlock local supply chain capacity and capability. **Establish a long-term revenue support mechanism for ports to continue sustainable investment into the region.**
7. Enable closer coordination between the Development Bank of Wales and UKIB (UK Infrastructure Bank) to **unlock investment in renewables and associated infrastructure.** Leveraging funding to support supply chain and SMEs to enter the sector and enable inward investment.

Maniffesto 2024

Ar gyfer cyfnod o gyflawni a thwf



“Nid ydym yn adeiladu digon o brosiectau ynni adnewyddadwy i gwrdd â galw cynyddol Cymru am drydan. Rydym yn annog Llywodraeth nesaf y DU i sefydlu **tasglu pedair gwlad cydweithredol**, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a’n diwydiant, i gyflymu’r broses o drosglwyddo i ynni adnewyddadwy ar draws y DU.

Dros y degawd nesaf, mae angen i Gymru gynyddu ei capasiti ynni gwynt bedair gwaith – o ffynonellau ar y tir ac ar y môr. Bydd dyfodol ynni glân yn diogelu ein sicrwydd ynni, yn darparu trydan cost is i leddfdu costau byw i gartrefi, yn hybu cystadleurwydd busnesau a chadwyni cyflenwi Cymru, ac yn cefnogi miloedd o swyddi ledled y wlad.

Ar y pwynt tyngedfennol hwn mewn marchnad fyd-eang gystadleuol, mae angen llywodraeth sy’n barod i achub ar y cyfle hwn i Gymru.”



Jessica Hooper
Cyfarwyddwr, RenewableUK Cymru

Mae'r defnydd o ynni yn cynyddu'n gyflymach na chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a bydd yr angen am drydan glân yn cynyddu'n gyflym yn y degawd nesaf wrth i ni geisio gwresogi ein cartrefi, pweru ein cerbydau, a glanhau ein diwydiannau. Gyda disgwyl i'r defnydd o drydan fwy na dyblu erbyn 2050, mae'n hanfodol datblygu pob math o gynhyrchu adnewyddadwy i ddiwallu'r angen cynyddol hwn. Mae'r cyfle ynni adnewyddadwy yn enfawr a gellir ei harnaisio ar draws pob rhanbarth a chenedl, gan gynnig buddion sylweddol fel:

- Ynni cost isel i dalwyr biliau
- Swyddi a thwf economaidd gwyrdd
- Cynlluniau budd cymunedol
- Cyllid ar gyfer rhaglenni amgylcheddol
- Llwybr i ddatgarboneiddio ein diwydiant trwm
- Sicrwydd cynhyrchu ein hynni ein hunain

Mae pleidleiswyr eisiau i Lywodraeth nesaf y DU fuddsoddi mewn ynni glân i helpu i fynd i'r afael â chostau cynyddol cartrefi.

Dangosodd arolwg barn a gynhaliwyd gan Opinium fod naw o bob deg o bobl Cymru yn credu y dylai ynni adnewyddadwy **fod yn ffocws allweddol i'r llywodraeth nesaf**. Mae rhwng 65% a 79% o'r rhai a arolygwyd yn cefnogi cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy, fel gwynt ar y tir, gwynt ar y môr, llanw, dŵr, a solar. Mae'r rhan fwyaf o bobl (62%) yn cefnogi adeiladu seilwaith grid trydan newydd i gyflwyno ynni adnewyddadwy cost isel yn gyflymach, gyda dim ond 6% yn ei wrthwynebu. Mae'r gefnogaeth i hyn yn cynyddu unwaith y bydd y cyhoedd yn cael sicrwydd y bydd yn darparu cyllid ar gyfer y gymuned leol ac mae'n rhan o raglen genedlaethol o uwchraddio i gefnogi buddsoddiad ynni glân cost isel.

Mae tystiolaeth hefyd o wahanu rhwng y cyhoedd a gwleidyddion lleol ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy newydd. Mae chwarter y cyhoedd yng Nghymru (25%) yn credu bod Aelodau Seneddol yn tanamcangyfrif y gefnogaeth i ynni gwynt ar y tir, a byddai 63% yn hoffi i'w Haelod Seneddol lleol eiriol dros fwy o fuddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy. A byddai gan bedair gwaith mwy o bobl safbwynt mwy ffafriol o blaid wleidyddol sy'n ymgrychu ar addewid i gynyddu buddsoddiad mewn ynni gwynt ar y tir nag a fyddai â safbwynt llai ffafriol (48% yn fwy ffafriol o'i gymharu â 12% a fyddai'n llai ffafriol).


Mae RenewableUK Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu targedau **technoleg-benodol** i gymell eu huchelgais eu hunain i fodloni 100% o'r galw am drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035. Dim ond chwarter yr holl ynni a gynhyrchir yng Nghymru heddiw sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy. Ac mae tystiolaeth yn pwntio at system gynllunio sy'n aros yn ei unfan yn hytrach na chynyddu i ateb galw sy'n cyflymu.

Yn 2022, nid oedd unrhyw brosiectau wedi'u cysylltu â'r grid a dim ond 6KW o ynni gwynt a ganiatawyd yng Nghymru. Mae hyn ar raddfa ficro, sy'n cyfateb i'r hyn fyddai ei angen i bweru un cartref. Mae cyfyngiadau cysylltedd gwael â'r grid a system gynllunio araf heb ddigon o adnoddau wedi rhwystro cynnydd ac wedi atal datblygwyr rhag mynd ar drywydd y prosiectau ynni gwynt uchelgeisiol y mae ar Gymru eu gwir angen i lwyddo. Mae arnom angen cynllun cyflawn llawer mwy beiddgar, cyflymach.

Rydym wedi nodi bron i 8GW o brosiectau ynni adnewyddadwy sydd ar y gweill yng Nghymru. Rydym yn amcangyfrif y dylai'r capasiti rhagamcanol hwn fod yn ddigon i gyrraedd targed 2035 Llywodraeth Cymru os byddwn

yn canolbwyntio ar gyflawni ac yn goresgyn y tri rhwystr strategol sy'n sefyll yn y ffordd: ein rhwydwaith grid gwael, ein system cynllunio a chydysynio sydd dan bwysau, a diffyg parodrwydd porthladdoedd a chadwyni cyflenwi. Mae pwerau penodol, e.e. seilwaith grid a buddsoddiad economaidd mawr, yn nwylo Llywodraeth y DU, tra bod eraill, megis cynllunio a datblygu sgiliau, wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Am y rheswm hwn, ni fu erioed mor bwysig i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd i ddatgloi'r rhwystrau hyn a gwneud y mwyaf o'r buddion economaidd-gymdeithasol ar draws Cymru.

Ni fydd yn hawdd. Mae pellter enfawr i'w orchuddio i **gynyddu cynhyrchu trydan adnewyddadwy Cymru bedair gwaith** mewn ychydig dros 10 mlynedd. Megis dechrau y mae'r rhan fwyaf o'r gwaith cynllunio, ond mae gan Gymru gyfle anhygoel i ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy, gan ddod â manteision economaidd-gymdeithasol ar draws y wlad, os caiff camau galluogi a seilwaith eu rhoi ar waith ar frys.



Ffynhonnell: Cronfa ddata Energy Pulse, RenewableUK

Ein gofynion gan Lywodraeth nesaf y DU i sicrhau y gellir gwireddu cyfraniad Cymru at ddyhead Sero Net y DU:



1. Creu **tasglu pedair gwlad cydweithredol** i fynd i'r afael â materion strategol a chyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws y DU.
2. Cefnogi ein cais i Lywodraeth Cymru osod **targedau defnyddio technoleg-benodol a chynllun gweithredu cyflawni clir** i gyrraedd eu targed o 100% o'r galw am drydan i'w gyflawni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035 a sero net erbyn 2050.
3. Sicrhau gofynion ac aliniad clir lle mae **cydysynio a chynllunio** yn cynnwys rhyngweithio rhynglywodraethol neu drawsffiniol, gan gynnwys rhyngwynebu â Bil Seilwaith (Cymru). Gyda'r nifer sylweddol o brosiectau ynni posibl ar y gorwel, mae'r angen am gyrff cydysynio ag adnoddau digonol a pholisi clir ar gyfer gwneud penderfyniadau yn bwysicach nag erioed.
4. Annog blaenoriaethu llwybr grid trawsyrru newydd o'r Gogledd i'r De i ddatgloi **buddsoddiad grid rhagweladwy** yng Nghymru a dod ag atebion grid strategol ymlaen sy'n mynd y tu hwnt i'r llinell ddatblygu bresennol i alluogi'r DU i wireddu'n llawn botensial Gwynt Anfoel yn y Môr Celtaidd.
5. Cydnabod **agenda sector sgiliau Sero Net Cymru** o fewn gwaith datblygu sgiliau ar lefel y DU – mae dull cydweithredol yn hanfodol i angori swyddi. Mae'r gweithlu'n symudol, sy'n cynrychioli cyfleoedd a bygythiadau ar draws y DU.
6. **Ymyrraeth ariannol uniongyrchol ar raddfa fawr drwy'r 2020au a dechrau'r 2030au** i alluogi porthladdoedd yng Nghymru i fuddsoddi mewn uwchraddio ar gyfer defnyddio ynni gwynt ar y môr a datgloi capasiti a gallu cadwyni cyflenwi lleol. **Sefydlu mecanwaith cymorth referniw hirdymor i borthladdoedd barhau â buddsoddiad cynaliadwy yn y rhanbarth.**
7. Galluogi cydgysylltu agosach rhwng Banc Datblygu Cymru ac UKIB (Banc Seilwaith y DU) i **ddatgloi buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig**. Trosoledd ariannol i gefnogi cadwyni cyflenwi a busnesau bach a chanolig i ddod i mewn i'r sector a galluogi mewnffuddsoddiad.